# Cenn@d

MAWRTH 5 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 210


## ‘Dros Gymru’n gwlad ...’

Tybed sut wnaethoch chi ddathlu dydd Gŵyl Dewi eleni? Ar drothwy’r ŵyl cawsom gystadleuaeth flynyddol *Cân i Gymru* gan S4C, a diolch am y doniau ifanc a welwyd yn perfformio. Llongyfarchiadau calonnog i fand ifanc Dros Dro ar gyrraedd y brig, ac i bawb wnaeth gystadlu eto eleni.



Plant Ysgol Sul Pencaenewydd yn cyrraedd y capel

Petawn i wedi bod adre ar Fawrth 1af, byddwn wedi mynd draw i bentref bach gwledig Pencaenewydd, gan fod criw’r capel a’r ysgol Sul wedi trefnu ‘parêd’ yno. Bellach, rydym wedi hen arfer gweld ‘parêd’ Gŵyl Ddewi mewn trefi a dinasoedd, a’r rheini fel arfer yn cael eu trefnu i hybu Cymreictod a chenedlaetholdeb. Ond ym Mhencaenewydd, y capel aeth ati i gofio ein nawddsant Dewi, mynach a chenhadwr teithiol a dreuliodd ei oes yn gwasanaethu ac yn rhannu’r newyddion da am Iesu Grist â’i gyd-Gymry. Onid peth naturiol felly yw i gapel neu eglwys drefnu dathliad a pharêd, er mwyn atgoffa pawb o rinweddau arbennig Dewi? Nid sant mewn lifrai rhyfel yn lladd dreigiau ydoedd, ond mynach a’n cymhellodd i wneud y pethau bychain hynny a ddangosodd a’u dysgu i ni – gan efelychu esiampl Iesu Grist ei hun. Tybed pa ddigwyddiadau a drefnwyd gan ein heglwysi ledled Cymru? Beth am yrru pwt o adroddiad a llun atom?

Ond, yn anffodus, fe fethodd Gweinidog yr eglwys fynd i’r achlysur ym Mhen-cae! Roeddwn wedi cychwyn yn blygeiniol i Lanelwedd ar gyfer dathliad Cristnogol wedi ei drefnu gan fudiad 100iGymru. Roeddwn yno’n benodol i lansio cyfres




Y gynulleidfa yn addoli

o lyfrau wedi eu hysgrifennu gan Owen Cottom, gweinidog aeth ati i blannu dwy eglwys yn Grangetown a Canton, Caerdydd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn.



Meirion Morris, Owen Cottom ac Aled Davies

**Dros Gymru’n gwlad, O Dad, dyrchafwn gri y winllan wen a roed i’n gofal ni**

Diwrnod i Gymru gan 100iGymru oedd hwn – diwrnod cenedlaethol o ddathlu a gweddi ar faes y Sioe yn Llanelwedd. Braf oedd gweld dros fil o bobl wedi dod ynghyd o bob rhan o Gymru, o bob enwad a thraddodiad, yn Gymry Cymraeg a di-Gymraeg. Gweledigaeth mudiad 100iGymru oedd cynnal y digwyddiad hwn ar ddydd Gŵyl Dewi. Sefydlwyd y mudiad hwn rai blynyddoedd yn ôl â’r nod o weld cant o eglwysi newydd yn cael eu plannu o fewn y deng mlynedd nesaf.

Roedd y diwrnod yn llawn mawl a gorfoledd, a’r un pryd yn ymbil am ddeffroad ac adfywiad yn ein gwlad. Fe’n hatgoffwyd bod Cymru wedi bod yn wlad y diwygiadau am gyfnod o 140 mlynedd, ond yna ein bod wedi profi canrif o drai a sychder o ran y ffydd yng Nghymru. Does dim amheuaeth na welwn ddegau, os nad cannoedd, o gapeli ac eglwysi’n cau yng Nghymru eto dros y degawd nesaf. Ond ochr yn ochr â hyn mae mudiad 100iGymru yn gweithio’n ddiwyd i blannu a sefydlu cant o eglwysi newydd. Efallai mai’r hyn oedd fwyaf trawiadol ar y dydd oedd gweld pobl ifanc – yn eu hugeiniau a’u tridegau – yn arwain ac yn rhannu eu gweledigaeth a’u brwdfrydedd. Cafwyd anerchiad gan Ben Franks ac anogaeth gan Owen Cottom, gyda Steffan Morris a Lois Franks yn llywyddu’n fedrus o’r llwyfan. Roedd y mawl yn ddwyieithog, a chyfieithu ar y pryd ar gael hefyd.

Ymhlith pigion o arlwy’r prynhawn cafwyd anerchiad gan David Thomas, un o stiwardiaid yr Asbury Awakening, a bwysleisiodd yr angen i flaenoriaethu gweddi a gostyngeiddrwydd ym mywyd y Cristion a’r Eglwys fel seiliau cywir i adfywiad ysbrydol.

Yn ogystal â rhaglen o anerchiadau a sgyrsiau roedd yna waith plant a gwaith ieuenctid hefyd yn rhedeg law yn llaw,


(parhad ar y dudalen nesaf)



Cofio am bobl Wcráin dair blynedd ers ymosodiad Rwsia
Tudalen 3

Adfywiad y Plygain?
Tudalen 7

Joseph Rowntree (1836–1925)
Tudalen 8

*'Dros Gymru'n gwlad ...'*

*(parhad o dudalen 1)*

yn ogystal â meithrinfa i'r plant lleiaf. Roedd nifer o stondinau gan fudiadau Cristnogol yno, yn barod i drafod a chynghori. Daeth y diwrnod i ben gyda sesiwn o fawl a gweddi dros Gymru dan arweiniad Anna Hughes o Ffald y Brenin ac Owain Edwards, Coleg y Bala.

Mewn cyfnod o gael ein diflasu gan ystadegau enwadol roedd yn dda gweld ton newydd o Gristnogion ifanc yn dilyn eu gweledigaeth ac yn mynd ati'n fwriadol i greu eglwysi sy'n berthnasol i'n cyfnod a'n diwylliant. Does dim amheuaeth nad oes ganddynt gyfraniad i'w wneud yn y clytwaith o amrywiaeth sy'n cynrychioli Crist yng Nghymru ar hyn o bryd, a dymunwn fendith Duw ar bob ymdrech i gyrraedd cymunedau gyda'r Newyddion Da am Iesu.


**O deued dydd pan fo awelon Duw**
**yn chwythu eto dros ein herwau gwyw**

Yn rhan o'r dathliadau, lansiwyd dwy gyfrol gan Owen Cottom, gydag un ohonynt hefyd ar gael yn Gymraeg, wedi ei chyfieithu gan Meirion Morris. Cyfrol broffwydol ei naws yw *Revive us Again: pursuing a new day mission and revival in the Land*, ac mae'n trafod posibiliadau cenhadaeth yng Nghymru heddiw. Mae'r awdur yn ein hatgoffa nad o Gymru y mae unrhyw ddiwygiad yn tarddu, ond drwy rym gweddi a dehongliad deallus o'r Beibl. Gan rannu ei stori bersonol o blannu ac arwain dwy eglwys newydd yn ardal Caerdydd, mae Owen yn ymdrin â hanes diwygiadau'r gorffennol gan geisio cloriannu beth fedrwn ni ei ddysgu o hynny. Mae'n edrych ar hanes arweinyddion y gorffennol, eu pwyslais ar weddi a'r Ysgrythur, a'u dibyniaeth ar Dduw am bob arweiniad. Er bod llawer o lyfrau tebyg ar gael yn Saesneg, mae'n dda cael cyfrol fel hon sydd wedi ei daearu ar brofiadau gweinidog yng Nghymru.

Casgliad o 15 astudiaeth Feiblaidd yw'r ail gyfrol, sef *Reviving Prayer / Gweddïo sy'n Bywhau*, ac mae'n ein harwain ar daith weddigar drwy 15 o salmau'r Beibl. Pwrpas yr astudiaethau hyn yw ein helpu i fod yn fwy cenhadol wrth weddïo, gan ymbil ar Dduw i'n bywhau fel cenedl. Cyhoeddwyd y tair cyfrol gan Gyhoeddiadau'r Gair, ac maent ar gael o'r siopau am £8.99 yr un.

**d'amddiffyn cryf a'i cadwo'n ffyddlon byth,**
**a boed i'r gwir a'r glân gael ynddi nyth**

Mae emyn Lewis Valentine hefyd yn ein hatgoffa fod gan Gymru hanes disglair a chyfoethog o fod yn wlad heddychlon. Cofiwn am waith Henry Richard, yr Apostol Heddwch, ac ymdrech arwrol y merched gyda'u deiseb heddwch gan mlynedd yn ôl, yn ogystal â gwaith arloesol Gwilym Davies




a Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd, sy'n cael ei rhannu ledled y byd.

Yn ystod yr wythnos a aeth heibio daeth cyhoeddiad brawychus gan Lywodraeth San Steffan oedd yn ergyd ddwbl mewn gwirionedd. Cyhoeddwyd bod y swm sy'n cael ei gyfrannu gan y Llywodraeth tuag at waith dyngarol a chymorth mewn argyfwng yn cael ei leihau o 0.5% i 0.3% o'r cynnyrch domestig gros erbyn 2027 (swm blynyddol o £6 biliwn), ond yr un pryd cyhoeddwyd cynnydd o £13.4 biliwn ar wariant ar arfau ac amddiffyn bob blwyddyn o 2027 ymlaen. Yn ei maniffesto, roedd y Blaid Lafur wedi addo codi ei chyfraniad dyngarol yn ôl i 0.7% cyn gynted ag y byddai modd, ond wrth weithredu mae'r Llywodraeth wedi mynd i'r pegwn arall.

Dywedodd Mari McNeill, pennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru, 'Ein pryder mwyaf wrth gwrs yw'r gost ddynol; mae'r toriad o 0.5% i 0.3% yn golygu tua £6bn ... mae'n swm aruthrol. Mae'r newyddion yn siomedig, gan fod cymorth rhyngwladol yn ffordd mor bwysig i ni gefnogi pobl sy'n wynebu rhai o'r argyfyngau mwyaf dwys yn y byd heddiw. Pan ddaeth Llafur i rym yn San Steffan o'dd addewid i ailosod safle'r Deyrnas Unedig yn fyd-eang i fod yn bartner parchus i wledydd sy'n datblygu, ac mae'r newyddion yma'n gwrth-wneud hynny.'

Yn dilyn y cyhoeddiad gwnaed sylw pellach gan Darren Jones, gweinidog yn y Trysorlys, oedd yn ffyddiog y gallai Cymru elwa o'r cynlluniau hyn, drwy ddatblygu'r safleoedd creu arfau yn y wlad. 'Byddwn yn gwario mwy o arian ar gwmnïau amddiffyn a thechnolegau amddiffyn,' meddai, 'ac mae'n gyfle gwych i economi'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys yma yng Nghymru.' Ychwanegodd Mark Drakeford, 'Mae Cymru eisoes yn gwneud cyfraniad cymesur mwy na rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig i'n lluoedd arfog. Byddem yn sicr yn gallu gweld Cymru yn cael ei siâr o fuddsoddiad ychwanegol pwysig iawn.'

Y cwestiwn a erys yw: pa fath o Gymru rydyn ni am ei gweld yn y dyfodol? Ai gwlad sy'n ymfalchïo yn ei gallu i ddatblygu a chynhyrchu arfau? Yn sgil y gostyngiad sylweddol yn y cymorth y byddwn yn ei gynnig i wledydd tlawd y byd a'n parodrwydd i greu elw drwy fuddsoddi i ddatblygu arfau, ymddengys bod dyhead a gweddi Lewis Valentine yn ymbellhau oddi wrthym bob dydd.

Ynghanol ein dathliadau Gŵyl Ddewi, ac wrth ddiolch am ein hanes cyfoethog o warchod 'y winllan wen', mae'r cyfrifoldeb ar ein hysgwyddau ni yn fwy nag erioed i herio a gwrthwynebu pob penderfyniad sy'n gwneud ein cenedl yn llai trugarog a gofalus o bobl fregus ein byd. Onid yw hi'n bryd i ni sefyll yn gadarn a mynegi ein barn – gan wneud ein Haelodau Seneddol yn ymwybodol o hynny!

*Aled Davies*




# Cofio am bobl Wcráin dair blynedd ers ymosodiad Rwsia

Aeth tair blynedd heibio ers i Rwsia ymosod ar Wcráin, ac yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd miloedd yn colli eu bywydau, miliynau'n ffoi, a difrod i isadeiledd y wlad – gydag ysbytai, ysgolion a chartrefi yn ddim byd ond rwbel erbyn hyn. Dyma rannu dwy gweddi a baratowyd gan yr Eglwys yng Nghymru i nodi'r achlysur, gan fawr obeithio y gwelwn gadoediad a heddwch yn fuan.

## Ymbil dros Wcráin

Gan hiraethu am Deyrnas cyfiawnder a thosturi,
gweddïwn ar ein Tad grasol,
trwy Grist, Tywysog Tangnefedd,
ac yn nerth yr Ysbryd Glân.
Dros bawb sydd wedi eu dal yn llanast gwrthdaro ...
dros bawb sydd wedi profi erchyllterau ...
dros bawb sy'n ofni beth a ddaw yfory ...
**Arglwydd, yn rasol clyw ni.**

Dros bawb sy'n cynnal isadeiledd y wlad a'r gwasanaethau brys ...
dros bawb sy'n cysgodi rhag y bomiau, y taflegrau a'r bwledi ...
dros bawb sy'n codi arfau er mwyn gwarchod eu cymunedau ...
**Arglwydd, yn rasol clyw ni.**

Dros bawb sy'n ffoi rhag enbydrwydd trais ...
dros deuluoedd ac anwyliaid sydd wedi eu gwahanu ...
dros wledydd sy'n agor eu calonnau a'u cymunedau er mwyn croesawu'r diymgeledd ...
**Arglwydd, yn rasol clyw ni.**

Dros y clwyfedig a phawb sy'n gofalu amdanynt ...
dros bawb sy'n dod â chymorth brys dyngarol ...
dros bawb sy'n cysuro'r galarus ...
**Arglwydd, yn rasol clyw ni.**

Dros bawb sy'n wan a bregus ...
dros bawb sydd ag anableddau ac anghenion arbennig ...
dros fenywod beichiog, plant bychain newydd-anedig a'r amddifaid ...
**Arglwydd, yn rasol clyw ni.**

Dros bawb sy'n wynebu perygl wrth amddiffyn eu cenedl ...
dros bawb sy'n ceisio dilyn llwybrau diplomataidd ...
dros bob proffwyd dewr sy'n siarad dros gyfiawnder yn wyneb camwedd ...
**Arglwydd, yn rasol clyw ni.**

Dros newyddiadurwyr sy'n agor llygaid y byd i weld gorthrwm rhyfel ...
dros bawb sy'n dylanwadu ar galonnau a meddyliau ...
dros bawb sy'n ymdrechu er mwyn datgelu'r gwirionedd ...
**Arglwydd, yn rasol clyw ni.**

Dros bawb sy'n arwain: yn Wcráin, yn Rwsia ac mewn gwledydd eraill ...
dros bawb sy'n ceisio eu dibenion hunanol eu hunain, heb ystyried y dioddef a ddaw i eraill ...
dros bawb sydd am weithio'n daer i weld goleuni yn trechu pob tywyllwch ...
**Arglwydd, yn rasol clyw ni.**



Dros lywodraethau a gwleidyddion ledled y byd ...
dros gymodwyr a thangnefeddwyr, llysgenhadon a diplomyddion ...
dros yr Undeb Ewropeaidd a'r Cenhedloedd Unedig ...
**Arglwydd, yn rasol clyw ni.**

Dros bawb sy'n diystyru rhyddid a sofraniaeth gwledydd eraill ...
dros bawb sydd wedi eu difa gan atgasedd oddi mewn ...
dros bawb sy'n magu casineb a chreulondeb ...
**Arglwydd, yn rasol clyw ni.**

Dros bawb sy'n edrych dros ffiniau ac yn gweld nid gelynion ond cyfeillion ...
dros bawb sy'n dirnad dy lun dwyfol di yn eu chwiorydd a'u brodyr ...
dros bawb sy'n dyheu am guro pob cleddyf yn gaib a phob gwaywffon yn gryman ...
**Arglwydd, yn rasol clyw ni. Amen.**

## Gweddi dros y rhai sy'n dioddef o ganlyniad i'r rhyfel

Arglwydd Dduw,
clyw ein cri dros bawb sy'n dioddef o ganlyniad i'r rhyfel hwn,
dros bawb yn y wlad hon sy'n pryderu dros anwyliaid sy'n byw yn Wcráin,
dros bawb sydd wedi ffoi o'u mamwlad ac yn hiraethu,
dros bawb sydd wedi colli eu cartrefi ac yn anobeithio am y dyfodol,
dros bawb sydd wedi cael eu hanafu'n gorfforol, yn feddyliol neu'n ysbrydol gan y gwrthdaro,
dros bawb sy'n galaru am anwyliaid a laddwyd yn y bomio a'r brwydro.

Arglwydd, gwelwn yn rhy eglur y llanast a'r gost ddynol sydd i'r rhyfel hwn,
gofynnwn iti amgylchynu pawb sydd dy angen di heddiw â gwybodaeth o'th gariad di-ffael.

Meddala galonnau ac agor llygaid pawb sy'n mynnu parhau â'r ymosodiad milwrol treisgar hwn
fel y gallant weld y niwed, y poen a'r creulondeb y maent yn eu hachosi i'w cyd-ddyn,
ac o weld y poen,
y cânt eu harwain, trwy dy Ysbryd Glân, i edifarhau
ac o edifarhau geisio'r ffordd sy'n arwain at heddwch, cymod ac adferiad i'r rhan hon o'r byd,
drwy un a alwodd bawb i fyw mewn cytgord a thangnefedd, Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 9 Mawrth, am 6:45yh**
**Diwrnod Rhyngwladol y Merched**
Rhodri Gomer sy'n nodi Diwrnod Rhyngwladol y Merched yng Nghaerfyrddin gyda'r Parchedig Beti-Wyn James a'i merched, Sara ac Elin. Daw'r emynau o Gapel y Tabernacl, Treforys, a chawn berfformiad gan y gantores Nia Price

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 9 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**
Cymanfa Blant Annibynwyr Gorllewin Myrddin o gapel Blaen-y-coed, dan arweiniad Nicki Roderick

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 9 Mawrth, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Aled Jones Williams, Cricieth

# Dydd Gweddi’r Byd – 7 Mawrth 2025 – ‘Rwyf wedi eich gwneud yn rhyfeddol’

Paratowyd y gwasanaeth eleni gan Ferched Cristnogol Ynysoedd Cook. Isod ceir gweddi allan o’r pecyn adnoddau:




Wrth inni weddïo, gadewch inni baratoi ein calonnau i ddod gerbron Duw.
Mae’r holl greadigaeth yn dangos dy fawredd urddasol.
Duw sy’n ein hadnabod, Duw sydd gyda ni,
Duw a’n creodd ni, arnat ti gweddïwn.

Dduw ffyddlon, diolch iti am ofalu amdanom bob eiliad o’n bywydau.
Rydym yn wir ddiolchgar am dy haelioni, ac ni allwn ond dy glodfori am dy ffyddlondeb.
Duw sy’n ein hadnabod, Duw sydd gyda ni,
Duw a’n creodd ni, arnat ti gweddïwn.

Dduw trugaredd, deuwn ger dy fron yn ostyngedig i ofyn am dy faddeuant am ein holl bechodau,
Mae hyn i gyd wedi peri inni beidio â manteisio ar dy fendithion a dy gariad.
Duw sy’n ein hadnabod, Duw sydd gyda ni,
Duw a’n creodd ni, arnat ti gweddïwn.

Dduw graslon, clyw ddyhead ein calonnau.
Ysbryd cariadlon, mae arnom angen dy freichiau o’n cwmpas er mwyn inni ddisgleirio a dangos dy gariad i’r holl fyd.
Duw sy’n ein hadnabod, Duw sydd gyda ni,
Duw a’n creodd ni, arnat ti gweddïwn.

Dduw doethineb, gweddïwn dros arweinwyr ein byd.
Rho nerth, dewrder a diogelwch i’r holl fenywod sy’n dioddef trais yn y cartref.
Duw sy’n ein hadnabod, Duw sydd gyda ni,
Duw a’n creodd ni, arnat ti gweddïwn.

Dduw sy’n iacháu, adfer ein hiechyd
Fel y bydd pawb yn teimlo’u bod yn bwysig, yn cael gofal a’u trysori.
Duw sy’n ein hadnabod, Duw sydd gyda ni,
Duw a’n creodd ni, arnat ti gweddïwn.
Amen!

Ewch nawr i fyw’r newyddion da hyn:
Duw yw ein Creawdwr.
Mae Duw wedi ein gwneud yn rhyfeddol.
Mae Duw yn ein hadnabod ac mae Duw gyda ni.
Meddyliwch amdanoch eich hun fel un o blant gwerthfawr ac annwyl Duw,
a meddyliwch am bobl eraill fel plant gwerthfawr ac annwyl i Dduw. Amen.






# Aduniad Souled Out – penwythnos i ieuenctid hŷn a myfyrwyr yng Ngholeg y Bala



Roedd Aduniad Souled Out ym mis Chwefror yn gymaint o fendith – bod gyda ffrindiau a chwrdd â ffrindiau newydd. Cefais fy mendithio'n fawr gan y sgyrsiau. Y peth oedd yn sefyll allan fwyaf i mi oedd bod yn fwriadol ynglŷn â threulio amser gyda Duw ac yna rhannu'r Gair. Gyda'r nos, cawsom i gyd amser gwych yn chwarae gemau a gwneud crefft. Dwi'n methu aros am y cwrs nesaf ar ein cyfer a'r Souled Out nesaf yn yr haf!

*Ffion Diaz*

Bu Aduniad Souled Out yn benwythnos gwych i ddod at ein gilydd fel criw o ffrindiau. Roedd y penwythnos yn atgof da i gadw fy ffocws ar Dduw a fy mherthynas ag Ef ac i barhau i redeg y ras gyda dyfalbarhad. Yr uchafbwynt i mi oedd y grwpiau bach, a oedd yn gyfle gwych i dreiddio'n ddyfnach mewn trafodaethau am y sgyrsiau. Fe wnaethon nhw fy helpu i weld sut y gallwn gymhwyso'r hyn a ddywedwyd i fy mywyd. Byddwn yn bendant yn annog pobl ifanc i ymuno â'r digwyddiadau hyn oherwydd mae'n gyfle gwych i ddyfnhau ein ffydd mewn gofod diogel o fewn cymuned gariadus.

*Ethan Robinson*

**Am fwy o wybodaeth am y gwaith yma, cysylltwch â Meryl Walters, Swyddog Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid Hŷn, yng Ngholeg y Bala am sgwrs ar 01678 520565 neu e-bostiwch info@souledoutcymru.net**



Sioned ac Ela yn arwain yn un o'r sesiynau

# Brecwast Rhinwedd a Moes

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn yn hanes eglwysi Bedyddwyr ac Annibynwyr Taf a Chleddau, eglwysi sy'n ffinio sir Benfro a sir Gaerfyrddin, yw cael dod ynghyd i frecwast yng Nghaffi Beca, Efail-wen, a hynny ar drothwy Gŵyl Ddewi. A dyna ddigwyddodd, yn ôl yr arfer, ddydd Sul, 23 Chwefror.



Yn y llun, o'r chwith i'r dde: Gwenda Mathias (Trysorydd), y Parchedig Guto Llywelyn, y Parchedig Ken Thomas, y Parchedig Eirian Wyn Lewis (Llywydd yr Ŵyl), y Prifardd a'r Prif Lenor Dylan Iorwerth, Anna Williams (Ysgrifenyddes), Ann Siriol, Ceirios Jenner, Ceris Llewelyn (Ysgrifenyddes)

Daeth dros 80 ynghyd er gwaetha'r storm a'r glaw. Profwyd cymdeithas gynnes o amgylch y byrddau a bu'r cymdeithasu yn frwd.

Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parchedig Eirian Wyn Lewis, Mynachlog-ddu, a chafwyd arweiniad defosiynol gan y Parchedig Guto Llywelyn, Hendy-gwyn ar Daf, a'r Parchedig Ken Thomas, Maenclochog.

Darllenodd Ann Siriol, Mynachlog-ddu, eiriau'r emyn sy'n crynhoi rhinweddau, delfrydau a phwrpas cynnal yr ŵyl arbennig hon, sef Gŵyl Rhinwedd a Moes, yr hen Gymanfa Ddirwest 'slawer dydd. Cyfeiliwyd y canu i'r emynau pwrpasol gan Ceirios Jenner, organyddes yng Nghalfaria, Login.

Y Prifardd a'r Prif Lenor Dylan Iorwerth, Alltyblaca, a wahoddwyd i annerch. Yn unol â'r disgwyl, cafwyd ganddo neges berthnasol a chyfoes yn sôn yn benodol am ddau Undodwr o bwys, sef y Parchedig D. Jacob Davies (1916–74) a'r Parchedig Ddr Arthur Powell Davies (1902–57), Washington, Unol Daleithiau'r Amerig. Roedd enw a chyfraniad Jacob Davies yn gyfarwydd i'r gynulleidfa, ond enw dieithr oedd Arthur Powell Davies. Fe'n goleuwyd, serch hynny, yn y traethu hwylus a'r paratoi manwl am gyfraniad y gwron Arthur Powell Davies fel gweinidog mawr ei ddylanwad yn yr Amerig.

Casglwyd y swm anrhydeddus o £400 tuag at Ymchwil Clefyd Parkinson.

Bu'n orig wir fendithiol ac adeiladol, a braf oedd inni gael dod ynghyd fel aelodau eglwysi'r cylch ar achlysur mor arbennig.

*Eirian Wyn Lewis*

# Undod Cristnogol mewn Byd sy'n Chwalu

WYTHNOS 1

## Eglwysi ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon – myfyrdodau ar gyfer y Grawys

**Adnewyddu a dyfnhau ein hymrwymiad i undod**

**Darlleniad**
Effesiaid 4:1–6

**Myfyrdod**

Mae'r rhai sydd â phrofiad o ymwneud eciwmenaidd ystyrlon yn aml yn ei weld yn brofiad trawsnewidiol. Teimlant wedi eu cyfoethogi yn eu ffydd yn sgil y ddeialog â safbwyntiau a phrofiadau amrywiol. Mae'r gymdeithas yn ddyrchafol ac yn adfywiol, yn enwedig pan fyddwn yn wynebu materion heriol a dewisiadau anodd ynghylch ble i fuddsoddi amser ac adnoddau prin. Mae'r undod yn ein cadarnhau yn ein gwaith ac yn ein hannog i ddal ati.

Gall fod yn anodd cyfleu grym ysbrydol yr ymwneud eciwmenaidd hwn i'r rhai nad ydynt yn rhan ohono. Mae'n rhaid ei brofi i'w ddeall yn llawn. Wrth i ni edrych o gwmpas ein cymunedau eglwysig gwelwn fod gormod o bobl heb gael y cyfle i'w brofi. Mae rhai o'r rhwystrau'n strwythurol – yn ystod bywyd 'arferol' yr Eglwys, dyw pobl ddim yn cael digon o gyfleoedd i brofi gweithgarwch eciwmenaidd. Gall rhwystrau eraill fod yn rhai mwy personol, er enghraifft diffyg hyder oherwydd bod pobl yn teimlo nad oes ganddyn nhw'r wybodaeth na'r profiad i gyfrannu at ddeialog eciwmenaidd.

Wrth i ni fyfyrio ar 1700 mlwyddiant Cyngor Nicea, mae'n briodol ystyried sut rydym yn siarad am waith undod Cristnogol, ac a allem wneud hyn yn fwy effeithiol. A yw'r rhai sydd heb fod yn ymwneud â'r gwaith hwn ar hyn o bryd yn cael gweledigaeth glir a grymus fyddai'n eu hysgogi i gymryd rhan ynddo?

Mae llawer i'w ddathlu yn yr hyn a gyflawnwyd yn ystod ein taith eciwmenaidd a'r ffordd y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at undod mewn cenhadaeth a thystiolaeth o'n ffydd yn y maes cyhoeddus. Gellir deall, pan fyddwn yn dod at ein gilydd, ein bod yn dymuno canolbwyntio ar y pethau rydyn ni'n eu rhannu, a'r hyn sy'n ein cysylltu. Ac eto, mae 'run mor bwysig osgoi'r demtasiwn i leihau ein gwahaniaethau ac anwybyddu'r tensiynau.

Yn ogystal â dechrau'r gwaith o lunio Credo Nicea, a fyddai'n cael ei gwblhau'n ddiweddarach, cytunodd Cyngor Nicea ar gasgliad o ganonau i reoleiddio rhai agweddau ar fywyd yr Eglwys. Mae'r rhain yn ymdrin â chwestiynau am awdurdod, gweithredu cyfreithiol a materion eraill a all effeithio ar berthynas pobl â'i gilydd o fewn yr Eglwys.

Yn ein gwaith eciwmenaidd heddiw rydym yn parhau i ddibynnu ar strwythurau i gynnig man i gyfarfod yn rheolaidd, i roi hyder drwy osod ffiniau ar gyfer y ddeialog a sefydlu prosesau i ymdrin â materion a all roi straen ar berthynas pobl â'i gilydd. Er mwyn i'r strwythurau hyn fod yn effeithiol, mae angen i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y gwaith fuddsoddi amser ac egni i sicrhau bod y gwaith hwnnw'n berthnasol. Rhaid iddo gyrraedd y bobl iawn ac mae angen ymdrechu i ehangu'r mannau cyfarfod hyn, gan ddenu mwy o bobl atom a chyfathrebu'n effeithiol â'r Eglwys a'r gymdeithas ehangach.

**Cwestiynau ar gyfer myfyrio a thrafod**

- Beth mae 'undod Cristnogol' yn ei olygu i chi yng nghyd-destun eich profiad chi?
- Ble ydych chi'n gweld y potensial i'r weledigaeth hon o undod gyfoethogi'r gymdeithas ehangach y tu hwnt i'r Eglwys?
- Beth, yn eich barn chi, allai gyfyngu ar botensial y weledigaeth hon i roi bywyd ac undod i'r Eglwys?




**Gweithredu**

- Cymerwch eiliad i feddwl am eich taith eciwmenaidd bersonol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol ysgrifennu rhai o'r adegau neu'r cerrig milltir allweddol a gawsoch yn ystod y profiad. Wrth i chi edrych yn ôl, allwch chi nodi unrhyw rwystrau y bu'n rhaid i chi eu goresgyn? Pa wybodaeth ac anogaeth i eraill allech chi eu rhannu ar sail y profiad hwnnw?
- Ystyriwch rannu'r straeon personol hyn mewn grŵp a nodi unrhyw themâu cyffredin sy'n deillio o hynny.
- Allech chi nodi rhai argymhellion ar gyfer gweithredu, ar gyfer eich cyd-destun lleol eich hun, ar gyfer enwadau a/neu gyrff eciwmenaidd a allai helpu i annog mwy o bobl i gymryd rhan yng ngwaith undod Cristnogol trwy fynd i'r afael â rhwystrau a/neu rannu straeon newyddion da?

**Gweddi**

Dduw cariadus,
Boed i'r undod y cawsom ein galw iddo yn dy enw
ddisgleirio fel goleuni i bawb ei weld.
Helpa ni i gefnogi ein gilydd
mewn cyfnodau anodd,
gan gadw ein gilydd ar y llwybr cywir,
y llwybr sy'n arwain at adfer perthynas
mewn cyfiawnder a thrugaredd.
Rho i ni'r dewrder a'r gostyngeiddrwydd
i wynebu'r tensiynau y down ar eu traws
wedi ein harwain nid gan ein buddiannau
a'n hargyhoeddiadau ein hunain
ond yn hytrach gan yr Ysbryd.
Gwyddom na ddylid cadw'r gwaith hwn
o undod tu ôl i ddrysau caeedig
a bod Crist wedi dangos i ni
sut i fyw a rhannu ein ffydd
mewn deialog ag eraill.
Helpa ni i ddilyn yr esiampl hon.
Amen.




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Adfywiad y Plygain?

Does dim dwywaith amdani, mae'r gwasanaethau plygain ar gynnydd, a hynny mewn sawl rhan o Gymru. Ond beth tybed yw'r rheswm am hynny? Fel un o'r rhai sydd wedi dechrau canu caneuon plygain ers rhai blynyddoedd bellach, mi geisiaf gynnig ateb.

Mewn eitem ar adfywiad y plygain ar *Heno* yn ddiweddar, gofynnodd y gyflwynwraig afieithus i aelod o'r gynulleidfa: "Fyddwch chi'n perfformio heno?" Roedd y cwestiwn yn fy nharo i'n chwithig iawn, a hynny am y rheswm syml nad yw mynychwyr gwasanaeth plygain yn 'perfformio' o gwbwl. Cymryd rhan mewn gwasanaeth y maen nhw. Ac i ni'r Cymry a fagwyd yn niwylliant yr eisteddfod, lle mae pob canu yn berfformiad a phob perfformiad yn gystadleuaeth, mae hynny'n ddweud go fawr. Ac i mi, mae'r gwahaniaeth hwn rhwng canu plygain a chanu mewn eisteddfod neu gyngerdd yn rhan fawr o'r rheswm dros apêl y gwasanaethau plygain.

Ar ben hynny, mae'r profiad o ganu plygain yn brofiad unigryw. Does dim sôn am 'liwio' wrth ganu plygain, dim ond gadael i'r geiriau a'r alaw wneud y gwaith i gyd. Ac mae'r geiriau'n gyhyrog ac uniongyrchol â chryn grefft ar lawer ohonyn nhw, gyda chyffyrddiadau cynganeddol yn aml yn ychwanegu at eu heffaith.

Fel rheol, mae gweinidog neu offeiriad yn cychwyn y gwasanaeth a gosod yr awyrgylch priodol ar gyfer y cyfarfod. I mi, fel anghydffurfiwr rhonc, mae'r cyfuniad o ffurfioldeb y gwasanaeth eglwysig cychwynnol ac anffurfioldeb cartrefol yr awyrgylch yn cyfuno i greu cyd-destun hynod addas i'r holl achlysur.

Mae'n anodd cymharu arddull y canu plygain gydag unrhyw fath arall o ganu. Ond pan oeddwn yn gwneud rhaglen am hanes Corsica rai blynyddoedd yn ôl cawsom gyfle i glywed criw o ddynion yn canu yn eu dull traddodiadol nhw mewn eglwys yno. Pedwar o ddynion gyda lleisiau cryfion, yn canu mewn cynghanedd, ac yn canu â'u holl egni, nes bod yr eglwys hynafol yn diasbedain. Ac yr oedd yr effaith yn atgoffa rhywun yn bendant iawn o'n canu plygain ni yng Nghymru. Byddai'n ddiddorol iawn cael gwybod a oes yna gysylltiad rhwng y ddau draddodiad.

Ond i mi, cyfoeth mwyaf y canu plygain yw'r geiriau; mae'r ieithwedd ychydig yn hynafol wrth reswm, ond mae crefft y farddoniaeth, a'r odlau mewnol a'r cynganeddion mynych yn cydio, ac yn glynu yn y cof. Ac uwchlaw pob dim, geiriau i'w canu ydyn nhw:

> Y gwŷr doethion cywir deithient, ar doriad dydd,
> O mor fore y cyfeirient, ar doriad dydd.
> Yn hyderus caent eu harwen gan ryfeddol, siriol seren
> I ymofyn am y bachgen, ar doriad dydd.
> Yno'n hawddgar, iawn anrhegion a ddygasant, enwog weision,
> Mewn modd parchus, ddawnus ddynion, ar doriad dydd.

A minnau newydd roi'r geiriau hyn at ei gilydd yn ystod Ionawr eleni, daeth *Pobol y Cwm* ar fy nhraws, wedi i drigolion Cwm Deri benderfynu cynnal plygain yn nhafarn y Deri Arms. Wel, sôn am gawdel! Dim math o ymdrech i greu awyrgylch o wasanaeth, dim ond rhyw fath o ffug eisteddfod flêr rhwng y trigolion, a chythrel y cystadlu yn amlwg iawn.

Ond yr hyn a'm lloriodd i – a ninnau wedi clywed yr actorion yn canu gyda graen ar rifyn o'r *Noson Lawen* yn ddiweddar – oedd bod ansawdd y canu yn fwriadol ddi-raen, ac yn amlach na pheidio allan o diwn. Beth bynnag oedd bwriad y cynhyrchwyr a'r sgriptwyr, roedd y cyfan yn dod drosodd fel ymgais i ddilorni'r traddodiad plygain yn llwyr. Os mai'r bwriad oedd cydnabod y twf diweddar yn y traddodiad hwn, ofnaf fod y cyfan wedi bod yn fethiant eithaf cywilyddus. Gwell lwc y tro nesaf, gyfeillion – mae'r plygain yn haeddu gwell na hyn! Ac yn y byd go iawn, tu allan i furiau'r Deri Arms, mae'r traddodiad ar gynnydd, ac yn cael ei barchu fwyfwy.

*Dafydd Iwan*
*(O wefan cristnogaeth21)*

## Ceisiadau Medalau Gee



**Yr adeg hon o'r flwyddyn, rydym yn gwahodd eglwysi i gyflwyno enwau i dderbyn Medalau Gee ar gyfer 2025.**

**Bydd angen derbyn enwebiadau cyn diwedd mis Mehefin ar gyfer derbyn medalau yn yr hydref.**

**Cyflwynir medalau i ffyddloniaid yr Ysgol Sul sy'n 75 oed neu hŷn.**

**Mae'r holl wybodaeth gan gynnwys ffurflen gais ar gael o'n gwefan.**



## Neges Atgoffa

**Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, 2–9 Awst 2025: Pabell yr Eglwysi**


Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: eglwysi ynghyd yng Nghymru **nos Fercher, 12 Mawrth, am 7 o'r gloch yng Nghapel y Groes, Wrecsam**, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod yr Eisteddfod eleni.

Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin. Cynhelir yr Eisteddfod ar gyrion dinas Wrecsam, a hynny rhwng 2 a 9 Awst 2025, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau uned yno i groesawu pobl o bob oed.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema, a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys gennym. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda.

Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com

# Joseph Rowntree (1836–1925)



Llun: Wikipedia

Faint o siocled fwytoch chi dros y Nadolig? Gomod, efallai? Neu ydych chi'n bwriadu rhoi'r gorau i fwyta siocled dros gyfnod y Grawys? Dywedir bod llawer o bobl yng ngwledydd Prydain yn 'siocoholig'. Ydych chi'n un ohonyn nhw, tybed?

Wel, mae gwyddonwyr yn meddwl bod siocled yn gallu helpu i leihau'r risg o gael strôc; mae'n gallu helpu person i deimlo'n fwy effro, i ymlacio ac i leddfu peswch. Po uchaf yw canran y coco, y gorau yw ansawdd y siocled. A gorau oll os ydym yn prynu bar o siocled Divine, sef siocled Masnach Deg sy'n helpu'r ffermydd teuluol bach yng Ngorllewin Affrica drwy dalu pris teg am y coco sy'n cael ei ddefnyddio gan y cwmni. Ond cofiwch, gyfeillion, dyw bwyta gormod o siocled ddim yn dda i chi. Mae gofyn i ni drin siocled fel trît i'w fwyta bob hyn a hyn, nid fel rhan arferol o'n deiet bob dydd – ac mae siocled tywyll yn well i chi na siocled golau.

Wel, ganrif yn ôl, ar 24 Chwefror 1925, bu farw Joseph Rowntree, Crynwr a dyngarwr adnabyddus, a gwneuthurwr a masnachwr siocled llwyddiannus.

Fe'i ganed yn Efrog ar 24 Mai 1836 i Sara a Joseph, oedd yn cynnal siop groser yng nghanol y ddinas. Ar ôl colli'i dad yn 1859 cymerodd y busnes drosodd gyda'i frawd, John Stephenson Rowntree. Roedd brawd arall, Henry Isaac, yn berchen ffatri siocled yn Efrog ac aeth Joseph i weithio gydag e ym 1859. Roedd y ffatri mewn trafferth a dawn fusnes Joseph a helpodd i'w chodi'n ôl ar ei thread.

Roedd Joseph yn benderfynol o gynhyrchu cynnyrch o ansawdd uchel ac roedd hefyd wedi ymrwymo i les ei weithlu. Roedd yn gyfrifol am lawer o syniadau blaengar yn y ffatri, a chynlluniodd un newydd, gydag amodau gwaith llawer gwell, a agorodd ym 1883. Fe oedd yn gyfrifol am gyflwyno un o'r cynlluniau pensiwn galwedigaethol cyntaf. Rhoddodd lyfrgell i'w weithwyr, addysg am ddim, swyddog lles cymdeithasol, meddyg a deintydd.

Pan fu farw Harri yn 1883, cymerodd Joseph y ffatri drosodd. Ymunodd ei ddau fab, John Wilhelm a Benjamin Seebohm, ag e, a dechrau cyflwyno syniadau newydd i'r busnes, a ysgogwyd efallai gan lwyddiant mawr y Cadburys yn Bournville. Dechreuodd Rowntree's hysbysebu a datblygu cynhyrchion newydd a phoblogaidd, yn enwedig pastiliau ffrwyth. Ffynnodd y busnes, ac ym 1902 galluogodd hyn iddo brynu 150 erw o dir yn New Earswick, y tu allan i Efrog, lle'r adeiladodd gartrefi i deuluoedd incwm isel. Roedd yn credu mai'r ffordd i unioni anghyfiawnderau'r byd oedd drwy daro at eu gwreiddiau yn hytrach na cheisio lleddfu eu heffeithiau gwael. Ym 1904, rhoddodd hanner ei gyfoeth i'r ymddiriedolaethau elusennol a greodd ac mae'r gwaith dyngarol yn parhau hyd heddiw.

Yn 1897 daeth Rowntree's & Co yn Rowntree's Limited, gyda Joseph Rowntree yn gadeirydd. Unodd y cwmni â John Mackintosh & Sons ym 1969, a daeth yn adnabyddus fel Rowntree Mackintosh. Fe'i cymerwyd drosodd gan Nestlé yn 1988.

Cymerai Joseph Rowntree ddiddordeb mawr yn natblygiad cyfleusterau ar gyfer pobl Efrog. Chwaraeodd ran bwysig yn y gwaith o sefydlu Llyfrgell Gyhoeddus Efrog. Bu hefyd yn athro yn Ysgol Oedolion y Sul yn Efrog. Gwasanaethodd ar bwyllgorau dwy ysgol y Crynwyr yn Efrog, a phrynodd y tir ar gyfer Ysgol Hill. Ym 1921 agorodd Barc Rowntree fel cofeb i'r rhai a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Priododd ddwywaith. Gwnaeth ei fab Benjamin Seebohm Rowntree astudiaeth o dlodi, gan gyhoeddi'r canfyddiadau mewn llyfr o'r enw *Poverty: a study of town life* ym 1901. Cafodd Joseph Rowntree ddylanwad mawr ar waith ei fab. Mabwysiadodd gredoau'r Crynwyr yn ei fywyd bob dydd, ac roedd yn mynychu Cyfarfod Efrog yn rheolaidd.

Claddwyd Joseph Rowntree yn ysbyty seiciatryddol The Retreat yn Efrog. Bu'n llywodraethwr yr ysbyty hwn am dros 40 mlynedd. Gadawodd waddol werthfawr a dylanwadol ar ei ôl.

Mae Sefydliad Joseph Rowntree yn elusen sy'n cynnal llawer iawn o achosion da. Mae'n ariannu ymchwil, er enghrafft, sydd â'r nod o ddatrys tlodi yn y Deyrnas Unedig. Ei nod yw 'ysbrydoli gweithredu a newid a fydd yn creu Teyrnas Unedig ffyniannus heb dlodi'. Yma yng Nghymru wedyn bu'n gymorth i'r rhwydwaith newydd dros Heddwch a Chyfiawnder. Mae 'Heddwch ar Waith' wedi ei ariannu drwy Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree gyda'r bwriad o gynyddu'r cydweithio rhwng mudiadau heddwch a chyfiawnder er lles pobl a chymunedau Cymru a'r byd.

*Alun Charles*

(Cyhoeddwyd yn wreiddiol ym mhapur Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin, Chwefror 2025)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru